WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad dilynol o'r cynnydd a wnaed yn gweithredu argymhellion yr archwiliad perfformiad blaenorol

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Blwyddyn yr Archwiliad:** 2010-11

**Cyhoeddwyd:** Awst 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 365A2011

# Statws yr adroddiad

Yr unigolyn a gyflwynodd y gwaith oedd Andrew Strong.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk..

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad, ond gellid cwblhau argymhellion yr archwiliad perfformiad yn gynt.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 5 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r broses o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad, ond mae yna le i wella ymhellach | 6 |
| Gellid treulio llai o amser yn cwblhau argymhellion archwiliadau perfformiad | 8 |
| **Atodiadau** | |
| Cynnydd a wnaed ar yr argymhellion | 9 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae cael prosesau effeithiol i reoli, monitro a mynd i'r afael â'r cynnydd ar weithredu argymhellion yr archwiliad yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn cael y budd mwyaf o'r rheoleiddio a wneir gan archwiliadau mewnol ac allanol a chyrff arolygu a'u camau argymelledig.
2. Felly, rydym wedi cynnal adolygiad er mwyn ceisio ateb y cwestiwn:
    - A oes gan yr Ymddiriedolaeth fecanwaith effeithiol ar waith i reoli a monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr archwiliadau allanol?'
3. Nod yr adolygiad hwn oedd asesu'r mecanweithiau sydd ar waith i olrhain cynnydd yn erbyn holl argymhellion yr archwiliad perfformiad a gyflwynwyd ac a fydd yn ymddangos o'r gwaith arfaethedig. Yn yr adolygiad hwn, canolbwyntiwyd yn arbennig ar fesur y cynnydd a wnaed yn gweithredu argymhellion yr archwiliad perfformiad ar gyfer ein gwaith blaenorol a nodwyd yn y Datganiad Etifeddiaeth ar ddiwedd 2009, gan gyfeirio'n arbennig at yr Asesiad Risg Cyfannol (Mai 2009), adolygiad dilynol Llywodraethu Gwybodaeth (Rhagfyr 2008) ac adolygiadau Adnoddau Dynol (Mai 2009). Yn ail hanner 2011, rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol manwl yn yr Ymddiriedolaeth er mwyn asesu i ba raddau y mae argymhellion archwiliadau blaenorol wedi'u gweithredu. Byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar asesu'r cynnydd a wnaed ar ôl ein hadolygiadau o Arlwyo mewn Ysbytai a'r Contract Ymgynghorwyr y GIG a gyflwynwyd ar ddechrau 2011.
4. Fodd bynnag, ar ddechrau 2010, ar ôl ad-drefnu'r GIG, cytunodd y Pwyllgor Archwilio i gael gwared ar holl argymhellion yr Asesiad Risg Cyfannol o gynllun gweithredu'r archwiliad gyda sêl bendith y Pwyllgor Archwilio. Daethpwyd i'r penderfyniad hwn ar sail y gwaith Asesiad Strwythuredig roeddem yn bwriadu ei wneud ar ddiwedd 2010. Byddai'r gwaith hwn yn darparu asesiad gwaelodlin o'r Ymddiriedolaeth ar ôl ad-drefnu'r GIG yn erbyn amrywiaeth o feini prawf yn ymwneud â llywodraethu, rheoli cyllid a defnyddio adnoddau. Defnyddiwyd gwaith yr Asesiad Risg Cyfannol i lywio'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2010.
5. Rydym wedi dod i'r casgliad cyffredinol bod yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad, ond gellid cwblhau argymhellion yr archwiliad perfformiad yn gynt.
6. Nodir y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn yn gryno isod:
    - yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r broses o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad, ond mae yna le i wella o hyd; a
    - gellid cwblhau argymhellion yr archwiliad perfformiad yn gynt.
7. Trafodir y canfyddiadau hyn mewn mwy o fanylder yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn. Nodir yr argymhellion sydd wedi'u cyflwyno yn sgil ein gwaith isod.

# Argymhellion

**8.** Mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o argymhellion a ddylai helpu'r Ymddiriedolaeth i wella'i ddull cyfredol o reoli'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr archwiliad. O ganlyniad i'r adolygiad, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol.

| | |
|---|---|
| A1 | Cytuno ar broses ar gyfer pob adroddiad perfformiad lleol er mwyn sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a'i gytuno gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, gan sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu cynnwys o fewn cynllun gweithredu'r archwiliad. |
| A2 | Sefydlu mecanwaith i ystyried adroddiadau gwerth am arian cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn gweld a oes modd i'r Ymddiriedolaeth elwa o bob astudiaeth a sut y byddai'n elwa. Rhoi'r cyfrifoldeb am y dasg hon i reolwr priodol yn yr Ymddiriedolaeth. |
| A3 | Mabwysiadu'r dull CAMPUS o lunio cynllun gweithredu er mwyn helpu i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad perfformiad o fewn amser derbyniol. |
| A4 | Datblygu dadansoddiad o nifer yr argymhellion archwilio a gyflwynwyd ac a gwblhawyd mewn cyfnod, er enghraifft, yn chwarterol neu'n flynyddol. |

# Adroddiad manwl

## Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r broses o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad, ond mae yna le i wella o hyd

**9.** Yn ystod hanner cyntaf 2010, cryfhaodd yr Ymddiriedolaeth y broses o reoli, monitro a mynd i'r afael â'r cynnydd yn gweithredu argymhellion yr archwiliad. Cyflwynwyd cynllun gweithredu archwiliad i gofnodi a nodi'r sefyllfa bresennol o ran argymhellion yr archwiliad. Cyflwynir cynllun gweithredu'r archwiliad ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac i bob Bwrdd Rheoli Gweithredol arall.

**10.** Mae nodweddion allweddol y fecanwaith i reoli, monitro a mynd i'r afael â'r cynnydd ar weithredu argymhellion yr archwiliad wedi'u nodi'n gryno isod:

- ychwanegir argymhellion i gynllun gweithredu'r archwiliad unwaith y byd yr adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a phan fydd cynllun gweithredu wedi'i gytuno;
- mae cynllun gweithredu'r archwiliad yn amlinellu'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen i reoli a mynd i'r afael â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ac mae'n cynnwys cyfeirnod, argymhelliad, blaenoriaeth, cam rheoli, cyfrifoldeb, swyddog cyfrifol, dyddiad gweithredu y cytunwyd arno, statws a sylwadau ar gynnydd;
- caiff unrhyw gynnydd perthnasol ei ddiweddaru gan berchennog y cam gweithredu cyn pob Pwyllgor Archwilio, fel y bo'n briodol;
- nodir statws pob un o gamau gweithredu'r archwiliad mewn lliw arbennig a'i ddadansoddi dan bedwar maen prawf: coch – nid yw'r cam wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad y cytunwyd arno, oren – nid yw'r cam yn debygol o gael ei gwblhau erbyn y dyddiad y cytunwyd arno, melyn – mae'r cam yn debygol o gael ei gwblhau erbyn y dyddiad y cytunwyd arno a gwyrdd – wedi'i gwblhau;
- gall swyddogion yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Archwilio fonitro'r cynnydd a wnaed trwy adolygu statws pob un o gamau gweithredu'r archwiliad; a
- phan fydd yr argymhellion wedi eu cwblhau, maent yn cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor Archwilio nesaf cyn cael eu symud o adran eitemau agored cynllun gweithredu'r archwiliad. Wedi hyn, cedwir trywydd archwilio sy'n cynnwys y cam gweithredu mewn cofnod o gamau gweithredu'r archwiliad sydd wedi'u cwblhau.

**11.** Er bod yna broses resymol o reoli, monitro a mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad wedi'i sefydlu, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod y broses yn datblygu'n barhaus. Rydym wedi nodi nifer o ffyrdd y gall yr Ymddiriedolaeth fynd ati i atgyfnerthu'r dull cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys:

# Atodiad 1

- Gwella'r amser a gymerir yn cynhyrchu cynllun gweithredu lleol o adroddiadau pob archwiliad, a chynnwys y camau gweithredu hynny ar gynllun gweithredu'r archwiliad. Er enghraifft, nid yw'r argymhellion o'r adroddiad ar yr Astudiaeth o Arlwyo a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2010 wedi'u cynnwys mewn cynllun gweithredu, ac felly nid ydynt wedi'u hychwanegu eto i gynllun gweithredu'r archwiliad.
- Ar ddechrau 2011, cyflwynasom ein hadroddiad ar yr Asesiad Strwythuredig i'r Ymddiriedolaeth. Yn yr adroddiad hwnnw, tynnwyd sylw at y trefniadau er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus mewn modd sy'n darparu sylfaen gadarn i wella gwasanaethau'n gynaliadwy, a chyflwynwyd nifer o argymhellion. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi ychwanegu'r argymhellion hyn na'r camau datblygu i gynllun gweithredu'r archwiliad eto. O ganlyniad, nid yw'r Pwyllgor Archwilio'n gallu asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau datblygu hyn.
- Caiff archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a allai effeithio ar y GIG a gaiff eu cwblhau a'u hadrodd gan Swyddfa Archwilio Cymru eu cynnwys yn natganiad y sefyllfa archwilio a gyflwynir i bob Pwyllgor Archwilio. Er nad yw'r rhain yn cynnwys argymhellion uniongyrchol i'r Ymddiriedolaeth ei hun, maent yn cynnwys sawl cam gweithredu arferion da a gwelliant perthnasol y gallai'r Ymddiriedolaeth eu hystyried, ac y gallai'r Ymddiriedolaeth elwa arnynt.
  Dylai'r Ymddiriedolaeth sefydlu mecanwaith i asesu ac ystyried yr adroddiadau gwerth am arian cenedlaethol hyn yn ffurfiol a chynnwys ychwanegiadau priodol yng nghynllun gweithredu'r archwiliad.
- Wrth dderbyn a chytuno ar argymhellion yr archwiliad, byddai'r Ymddiriedolaeth yn elwa ar ddefnyddio dull CAMPUS[1] o fynd i'r afael â chynlluniau gweithredu. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn llwyr ddeall y camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn fel y gellir eu cwblhau o fewn amser derbyniol.
- Gosodwyd cryn dipyn o argymhellion gan archwiliadau mewnol ac allanol ar draws ystod eang o adolygiadau i'r Ymddiriedolaeth. Cynhyrchir crynodeb o nifer y camau gweithredu sy'n flaenoriaethau uchel, canolig ac isel. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur y cynnydd cyffredinol sy'n cael ei wneud i gyflawni'r camau hyn o un flwyddyn i'r llall. Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn dadansoddiad syml o dueddiadau nifer yr argymhellion a wnaed ac a gwblhawyd o fewn cyfnod, er enghraifft, bob chwarter neu bob blwyddyn, er mwyn dangos y cynnydd cyffredinol a wnaed ar draws amrywiaeth o adolygiadau archwilio mewnol ac allanol.

[1] CAMPUS – Yn gyffredinol, derbynnir y dylai amcanion, canlyniadau a thargedau perfformio fod yn Gyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

# Atodiad 1

## Gellid cwblhau argymhellion yr archwiliad perfformiad yn gynt

**12.** Rydym wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth ar weithredu argymhellion ein harchwiliad perfformiad a nodwyd yn Natganiad Etifeddiaeth mis Hydref 2009. Rydym wedi adolygu cynllun gweithredu'r archwiliad ac wedi cysylltu â'r staff priodol i bennu'r camau gweithredu a gymerwyd i gwblhau'r argymhellion a nodwyd ac i asesu'r cynnydd a wnaed ar yr argymhellion nad ydynt eto wedi eu cyflawni'n llwyr.

**13.** Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl bod yr Ymddiriedolaeth wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o argymhellion yr archwiliad perfformiad o fewn cyfnod derbyniol, er enghraifft, 12 mis. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar weithredu nifer o argymhellion yr archwiliad, ond mae angen gwneud mwy o waith mewn nifer o feysydd eraill. Gellid cwblhau camau gweithredu'r archwiliad perfformiad yn gynt. Ar hyn o bryd, nid yw llawer o gamau gweithredu'r archwiliad yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiad arfaethedig gwreiddiol na'r dyddiad gweithredu diwygiedig. Mae Arddangosyn 1 isod yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth. Mae o leiaf pedwar o'r naw argymhelliad a gyflwynwyd fwy na dwy flynedd yn ôl heb eu cwblhau o hyd.

**Arddangosyn 1 – crynodeb o'r cynnydd a wnaed ar argymhellion yr archwiliad perfformiad**

| Adolygiad o'r archwiliad/dyddiad | Nifer yr argymhellion a wnaed | Wedi'u cwblhau | Ar waith |
|---|---|---|---|
| Adolygiad dilynol Llywodraethu Gwybodaeth – Rhagfyr 2008 | 7 | 5 | 2 |
| Adolygiad Adnoddau Dynol - Mai 2009 | 2 | 0 | 2 |

*Ffynhonnell: gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru*

**14.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gellid mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad perfformiad yn gynt ac, yn y deuddeg mis diwethaf, mae wedi cymryd y camau gweithredu a nodir uchod i gryfhau'r broses fonitro. Mae Atodiad 1 yn dangos yr union gynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth ar draws yr adolygiadau dilynol.

# Atodiad 1

## Cynnydd a wnaed yn gweithredu'r argymhellion

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau'r targed | Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Astudiaeth ddilynol ar Lywodraethu Gwybodaeth – Rhagfyr 2008 (cynnydd ar sail cynllun gweithredu'r archwiliad a thrafodaethau â rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth)** | | | | |
| 1 | Cwblhau'r gwaith o weithredu'r argymhelliad a gyflwynwyd yn ein hadolygiad yn 2006 sydd heb eu cwblhau hyd yma. | Mae tri o'r pedwar argymhelliad a ddygwyd ymlaen o'n hadolygiad yn 2006 wedi'u cwblhau.<br>Mae un argymhelliad, 1.2 isod, ar waith o hyd. | 31 Rhagfyr 2011 yw'r dyddiad terfynol ar gyfer argymhelliad 1.2. | Amherthnasol |
| 1.1 | Gweithredu camau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) fel y cânt eu cyhoeddi wedi ymgynghoriadau'r gweithgorau.<br>Sicrhau bod trefniadau ar waith yn yr Ymddiriedolaeth i weithredu'r camau cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi. | **Wedi'i gwblhau**<br>Cofrestrodd yr Ymddiriedolaeth gyda WASPI a chyflwynwyd ceisiadau i ysgrifenyddiaeth WASPI. | Wedi'i gwblhau. | Amherthnasol |
| 1.2 | Cynnal asesiad o sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â manyleb ISO 27000. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o fylchau a phrofion, er enghraifft, prawf hacio allanol a mewnol ac asesiadau ar ba mor agored i niwed yw'r rhwydwaith.<br>Dylid llunio a chymeradwyo cynllun gweithredu o gamau i'w cymryd i wella | **Ar waith**<br>Bydd Grŵp Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Ymddiriedolaeth GIG Felindre'n cymryd camau i gyflawni'r gwaith hwn (cynnal asesiad o gydymffurfiaeth ag ISO 27000) gyda mewnbwn technegol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). | Dyddiad diwygiedig y bwriedir cwblhau'r gwaith – 31 Rhagfyr 2011. | Amherthnasol |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau'r targed | Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| | rheolaeth diogelwch gwybodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. | | | |
| 1.3 | Diweddaru'r cyflwyniad S60 i'r Grŵp Cynghori ar Wybodaeth Cleifion (PIAG) ar newidiadau allweddol i'r amgylchedd diogelwch a mesurau i ddiogelu mynediad i ddata y gellid ei ddefnyddio i adnabod cleifion. | **Wedi'i gwblhau**<br>Wedi gwneud cais am gymeradwyaeth gan y PIAG (ECC bellach) ar gyfer Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) a'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD). | Wedi'i gwblhau. | Amherthnasol |
| 1.4 | Cwblhau'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau hyd yma er mwyn cydymffurfio â Caldicott. Dylid cwblhau'r camau hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau Archwiliadau Caldicott ar gyfer pob Is-adran o'r Ymddiriedolaeth ac mae'r broses asesu sy'n seiliedig ar Lawlyfr newydd Caldicott ar gyfer Cymru gyfan wedi'i chwblhau. Bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro trwy Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth. | Wedi'i gwblhau. | Amherthnasol |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau'r targed | Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Paratoi i weithredu'r WASPI diwygiedig o fewn meysydd gofynnol yr Ymddiriedolaeth pan gaiff ei hail-lansio a chodi ymwybyddiaeth yr Ymddiriedolaeth trwy:<br>• Ymrwymo'n ffurfiol i'r WASPI diwygiedig;<br>• Dyrannu cyfrifoldeb i swyddogion penodol yn yr Ymddiriedolaeth;<br>• Cynnal asesiad effaith; a<br>• Chynhyrchu cynllun gweithredu manwl. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi arwyddo datganiad WASPI. Mae arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth o fewn Is-adrannau perthnasol yr Ymddiriedolaeth yn cyfathrebu'r gofynion trwy Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth. Mae unrhyw ofynion i ddefnyddio WASPI yn cael eu cydgysylltu gan Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth. Bydd cytundebau rhannu data o fewn a thu allan i'r GIG yn seiliedig ar fframwaith WASPI. | Wedi'i gwblhau. | Amherthnasol |
| 3 | Adolygu'r trefniadau rheoli cyfredol ar gyfer gofynion diwygiedig ac estynedig Caldicott pan gaiff y rhain eu hail-lansio yn ddiweddarach yn 2008. Dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau:<br>• hunanasesiad o sut mae'n cydymffurfio â'r canllawiau a'r gofynion newydd; a<br>• chynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw waith sydd angen ei wneud i gydymffurfio a chyflawni gwelliannau. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau Archwiliadau Caldicott ar gyfer pob Is-adran o'r Ymddiriedolaeth ac mae'r broses asesu sy'n seiliedig ar Lawlyfr newydd Caldicott ar gyfer Cymru gyfan wedi'i chwblhau. Bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro trwy Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth. | Wedi'i gwblhau. | Amherthnasol |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau'r targed | Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Cryfhau'r trefniadau diogelu gwybodaeth ar gyfer data a gedwir ar ddyfeisiau cyfrifiadurol symudol trwy:<br>• ddiweddaru'r Polisi Diogelu Gwybodaeth a chynhyrchu polisi Ymddiriedolaeth ar gyfer storio data a gedwir ar ddyfeisiau cyfrifiadurol symudol;<br>• cwblhau asesiadau risg o sut bydd colli data a gedwir ar ddyfeisiau cyfrifiadurol symudol yn effeithio ar yr Ymddiriedolaeth gyfan;<br>• gweithio tuag at gydymffurfio â chyfres ISO 27000 ar fanyleb rheoli gwybodaeth ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan; a<br>• rhoi datrysiadau amgryptio ar waith er mwyn diogelu data sensitif neu ddata y gellir ei ddefnyddio i adnabod pobl; | **Ar waith**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu strategaeth amgryptio. Mae isadrannau wedi bod yn gyfrifol am roi'r dechnoleg briodol ar waith i reoli dyfeisiau pwynt terfynol (er enghraifft, USB, dyfeisiau llaw a ffonau symudol). Mae rhai isadrannau yn ceisio caffael meddalwedd fel rhan o gytundeb fframwaith NWIS ar gyfer amgryptio. Bydd cydymffurfiaeth NWIS â chyfres ISO 27000 yn ymestyn i feysydd eraill o'r Ymddiriedolaeth trwy uno darpariaeth TG o fewn yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol. Mae Polisi Diogelwch yr Ymddiriedolaeth wedi'i ddiweddaru. Mae'r Polisi Diogelu Data wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar i adlewyrchu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i gymhwyso'r mesurau diogelwch priodol. Mae'r polisi hwn o fewn y cyfnod cymeradwyo ar hyn o bryd.<br>Bydd Grŵp Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Ymddiriedolaeth GIG Felindre'n mynd ati i gyflawni'r camau hyn (trwy gynnal asesiad ar gydymffurfio ag ISO 27000) gyda mewnbwn technegol gan NWIS. | Dyddiad cwblhau diwygiedig a gynigir – 30 Medi 2011. | Amherthnasol |

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau'r targed | Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| 4 | • cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod y polisi ar storio a defnyddio data a gedwir ar ddyfeisiau cyfrifiadurol symudol yn cael ei ddilyn; a<br>• sicrhau bod hyfforddiant cyson ar Lywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gynnig i holl staff yr Ymddiriedolaeth sy'n prosesu data personol y gellir ei ddefnyddio i adnabod cleifion a datblygu prosesau cyfathrebu, fel bod gweithdrefnau disgyblu'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â chamau gweithredu anystyriol neu heb eu hawdurdodi. | Gweler tudalen 12. | Gweler tudalen 12. | Gweler tudalen 12. |

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Argymhelliad</th><th>Cynnydd a wnaed</th><th>Dyddiad cwblhau'r targed</th><th>Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru</th></tr>
<tr><td colspan="4">Adolygiad Adnoddau Dynol (AD) – Mai 2009 (cynnydd sy'n seiliedig ar gynllun gweithredu'r archwiliad)</td><td></td></tr>
<tr><td>1</td><td>Er mwyn gwireddu potensial llawn ei gweithlu, awgrymwn fod:<br>• Yr Ymddiriedolaeth yn gosod cyfeiriad clir i'w gwasanaeth AD sy'n cynnwys y blaenoriaethau cenedlaethol ac yn ystyried y dystiolaeth sydd yn yr adroddiad hwn. Dylai hyn gynnwys:<br>– mynd ati i foderneiddio'r gwasanaeth AD;<br>– pennu ac egluro rôl a swyddogaeth gwasanaethau AD i wasanaethau mewnol a rhai a ddarperir gan eraill;<br>– mabwysiadu dull corfforaethol o ddarparu gwasanaeth AD, cynllunio'r gweithlu a datblygu a moderneiddio'r gweithlu; a<br>– sicrhau bod yna gysylltiadau hyfforddi a datblygu clir gyda'r AD (neu eu cynnwys yn swyddogaeth yr AD) er mwyn gallu hyfforddi a datblygu adnodd staffio'r Ymddiriedolaeth yn effeithiol.</td><td>Ar waith<br>Mae'r cynnydd yn y maes hwn yn cynnwys:<br>• Lansiwyd y prosiect adolygu Adnoddau Dynol a hyfforddiant ym mis Hydref 2010 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Chwefror 2011;<br>• Chwefror i Fawrth 2011 – Ymgynghori â'r AD a'r staff hyfforddi ar y strwythur AD a hyfforddiant arfaethedig, gan gynnwys amserlen weithredu;<br>• Ebrill i Fehefin 2011 – sefydlwyd strwythur AD a hyfforddiant integredig a chyhoeddwyd ef i randdeiliaid allweddol er mwyn ymgynghori arno, gan gynnwys timau uwch-reoli is-adrannol a chyfarwyddwyr is-adrannol; a<br>• Gorffennaf 2011 – Strwythur AD a hyfforddiant newydd i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol ym mis Gorffennaf 2011 cyn ei roi ar waith.</td><td>Dyddiad gweithredu diwygiedig i Chwefror 2011.</td><td>Dylai'r Ymddiriedolaeth osod dyddiad gweithredu newydd.</td></tr>
</table>

| Cyf | Argymhelliad | Cynnydd a wnaed | Dyddiad cwblhau'r targed | Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Er mwyn cefnogi cyflwyniad y strategaeth, argymhellwn fod:<br>• yr Ymddiriedolaeth yn datblygu cyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir i bob aelod o'r staff AD;<br>• yr Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiad o sgiliau ac anghenion hyfforddi staff AD a rheolwyr gwasanaethau is-adrannol ac yn darparu unrhyw hyfforddiant a chymorth gofynnol er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o foderneiddio AD;<br>• yr Ymddiriedolaeth yn datblygu dull clir a chyson o ddarparu hyfforddiant a sicrhau bod yna systemau ar waith i adnabod anghenion hyfforddi a sut y cânt eu cyflawni;<br>• yr Ymddiriedolaeth yn gwneud yn siŵr bod pob polisi AD yn cael ei adolygu a'i ddiwygio, os oes angen, fel ei fod yn eglur, yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn cael ei gymhwyso'n gyson; a bod<br>• yr Ymddiriedolaeth yn gwirio'r polisi AD yn rheolaidd am gydymffurfiaeth er mwyn sicrhau bod y polisïau'n cael eu cymhwyso'n gywir ac yn deg. | **Ar waith**<br>Mae'r cynnydd yn y maes hwn yn cynnwys:<br>• Lansiwyd y prosiect adolygu Adnoddau Dynol a hyfforddiant ym mis Hydref 2010 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Chwefror 2011.<br>• Mae strwythur AD a hyfforddiant wedi'i amlinellu ar gyfer ymgynghori â staff. Roedd yr adolygiad yn cynnwys swyddi penodol ar gyfer cydymffurfio, moderneiddio'r gweithlu, addysg a datblygiad. Datblygwyd disgrifiadau swydd ar gyfer swyddi newydd a swyddi sydd wedi newid.<br>• Mae pob un o bolisïau'r AD wedi'i adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn 'addas i'r diben' ac mae'r polisïau hynny sydd angen eu diwygio wedi'u blaenoriaethu i gael eu hadolygu. | Dyddiad gweithredu diwygiedig Chwefror 2011. | Dylai'r Ymddiriedolaeth osod dyddiad gweithredu newydd. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk